OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 304

## Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2019

**Copïau ychwanegol**

**26.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru, ar unrhyw adeg cyn i ymchwiliad gau, ofyn am gopïau o'r canlynol oddi wrth unrhyw berson sydd â hawl i ymddangos neu a ganiateir i ymddangos—

(a) datganiad amlinellol (fel y crybwyllir yn rheoliad 6(4)(c)) a anfonir yn unol â rheoliad 6(4)(a);

(b) datganiad achos neu sylwadau a anfonir yn unol â rheoliad 12;

(c) proflen dystiolaeth a anfonir yn unol â rheoliad 18; neu

(d) unrhyw ddogfen arall neu wybodaeth arall a anfonir at Weinidogion Cymru cyn ymchwiliad neu yn ystod ymchwiliad,

a rhaid iddynt bennu'r cyfnod y mae rhaid iddynt gael y dogfennau hynny ynddo.

(2) Rhaid i unrhyw berson y gofynnir iddo wneud hynny sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael y copïau o fewn y cyfnod penodedig.